# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 11EG HYDREF, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 5 Hydref 2022)

# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Annwen Hughes | Medwyn Hughes |
| Nia Wyn Jeffreys | June Jones |
| Menna Jones | Olaf Cai Larsen |
| Dafydd Meurig | Dyfrig Siencyn |
| Ioan Thomas | Gwynfor Owen |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Eryl Jones-Williams | Beth Lawton |
| Angela Russell | Rob Triggs |
| Anne Lloyd-Jones | |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 5 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 28ain Gorffennaf 2022 fel rhai cywir

## 5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.**

Eitem 6:

Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Ar y pwynt yma nid oes penderfyniad yn cael ei wneud ac mae angen trafod y bwriad. Petai y cynnig yn mynd ymlaen yna byddai y newidiadau yn cael eu cyhoeddi fel rhan o addasiadau i'r Datganaid Polisi Tal. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma fyddai'n gorbwysio hawliau'r unigolion yma . O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig

Eitem 7:

Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd a hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.

## 6. CWBLHAU CAM OLAF YR ADOLYGIAD UWCH REOLAETHOL

I ystyried yr adroddiad

## 7. TYNNU RHESTR FER AR GYFER PENNAETH ADRAN CEFNOGAETH GORFFORAETHOL

I ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr.

Pecyn gwybodaeth a ffurflenni cais wedi ei dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor yn unig

**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 28-07-22**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Annwen Hughes, Medwyn Hughes, Eryl Jones-Williams, June Jones, Menna Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Gwynfor Owen, Dyfrig Siencyn ac Ioan Thomas

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol), Annes Sïon (Arweinydd Tîm Gwasanaethau Democratiaeth) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:** Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Nia Jeffreys, Dafydd Meurig, Angela Russell a Rob Triggs a'r Cynghorydd Elwyn Jones (Cadeirydd y Cyngor)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 15-07-22 fel rhai cywir

**5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.**

**6. CYFWELD YMGEISWYR AR GYFER SWYDDI CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL**

- **CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**
- **CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL**

a) Cadarnhawyd trefn y diwrnod gyda'r Aelodau.

b) Cyfwelwyd dau ymgeisydd ar gyfer y swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol

c) Gwahoddwyd yr ymgeiswyr i roi cyflwyniad rhwng 10 a 15 munud ar y testun ‘Beth yw’r prif risgiau a sialensiau o fewn y maes gwasanaethau cymdeithasol ar hyn o bryd, a sut fedrwch chi wneud gwahaniaeth mwyaf i arwain y Cyngor i ymateb yn effeithiol i’r materion hyn dros y cyfnod nesaf?’

Ymatebwyd i bum cwestiwn ffurfiol a ofynnwyd gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Menna Jones, ynghyd a chwestiynau dilynol gan yr Aelodau.

d) Gwahoddwyd Mr Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), i gyflwyno adborth cryno o berfformiadau’r ddau ymgeisydd mewn cyfres o weithgareddau asesu a gynhaliwyd ar y 26ain o Orffennaf 2022. Cafodd yr ymgeiswyr eu hasesu gan gwmni Edgecombe (nodwyd canlyniadau’r profion seicometreg a chymwyseddau’r ymgeiswyr i’r gweithgaredd hynny), gan grŵp o Aelodau Etholedig a grŵp o Bartneriaid Allanol.

Cyflwynwyd hefyd adborth cryno o berfformiadau’r ddau ymgeisydd mewn cyfweliad proffesiynol a gynhaliwyd gyda chefnogaeth Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol)

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y swydd yn cael ei chynnig i Mr Dylan Owen

**PENDERFYNWYD, yn unfrydol, penodi Mr Dylan Owen i’r swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cafwyd toriad am ginio

a) Cyfwelwyd tri ymgeisydd ar gyfer y swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol

b) Gwahoddwyd yr ymgeiswyr i roi cyflwyniad rhwng 10 a 15 munud ar y testun ‘Mae’r Cyngor yn darparu amrediad eang o wasanaethau i drigolion Gwynedd. Ym mhle, a sut, fedrwch chi wneud y gwahaniaeth mwyaf wrth gefnogi’r Prif Weithredwr ac Aelodau’r Cyngor i sicrhau darpariaeth gwasanaethau o’r radd flaenaf’?

Ymatebwyd pum cwestiwn ffurfiol a ofynnwyd gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Menna Jones, ynghyd a chwestiynau dilynol gan yr Aelodau.

c) Gwahoddwyd Mr Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), i gyflwyno adborth cryno o berfformiadau’r tri ymgeisydd mewn cyfres o weithgareddau asesu a gynhaliwyd ar y 26ain o Orffennaf 2022. Cafodd yr ymgeiswyr eu hasesu gan gwmni Edgecombe (nodwyd canlyniadau’r profion seicometreg a chymwyseddau’r ymgeiswyr i’r gweithgaredd hynny), gan grŵp o Aelodau Etholedig a grŵp o Bartneriaid Allanol.

Cyflwynwyd hefyd adborth cryno o berfformiadau’r ddau ymgeisydd mewn cyfweliad proffesiynol a gynhaliwyd gyda chefnogaeth Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol)

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y swydd yn cael ei chynnig i Mr Geraint Owen

**PENDERFYNWYD, yn unfrydol, penodi Mr Geraint Owen i’r swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol**

Dechreuodd y cyfarfod am 9:30am a daeth i ben am 16:45